



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

24/03/2023

Teitl: Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2023/24

Awdur: Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)

Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2023/24 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais).

2. Y Penderfyniad a Geisir

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo:-

2.1 **Cyllideb Refeniw 2023/24 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.**

2.2 **Cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol, a chyfraniadau llog partneriaid.**

2.3 **Cyllideb Gyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.**

3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

3.2 Mae Atodiad 1 yn gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

3.3 Mae Atodiad 2 yn gosod y gyllideb gyfalaf arfaethedig fesul prosiect a'r cyllid cyfalaf cyfatebol ar gyfer y Cynllun Twf o £240m.

3.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

4.1 Er y gallai'r Bwrdd Uchelgais fod o fewn pŵer llesiant economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), sefydlir cyllideb ar wahân ar ei gyfer ar hyn o bryd.

4.2 Dangosir y gyllideb refeniw fanwl arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 a dangosir y gyllideb gyfalaf arfaethedig yn Atodiad 2.

Cyllideb Refeniw

4.3 Swyddfa Rheoli Portffolio - £1,455,990

Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn seiliedig ar 20 swydd gweithwyr (lleihad o'r 22 swyddi yn 2022/23), ac mae'n cynnwys cyllidebau ar gyfer hysbysebu ac asesu ymgeiswyr; teithio a chynhaliath; hyfforddiant; ymgysylltu a chyfarfodydd; cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus; cyflenwadau a gwasanaethau; Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (RET); eiddo; arfarniad ESF; datblygu'r portffolio a'r rhaglenni.

4.4 Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol - £201,170

Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro), Cefnogaeth Gorfforaethol, Technoleg Gwybodaeth (TG) ac Yswiriant.

4.5 Caiff amrediad y gwasanaethau a gynigir, y dulliau codi ffi a'r amcangyfrif costau eu cytuno gyda phob Adran.

Cyd-bwyllgor

4.6 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £18,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas â materion llywodraethu a pholisi.

4.7 Ffioedd Cyllidol Allanol - £10,000

Bydd y gyllideb hon yn bennaf ar gyfer mewnbwn gan yr Ymgynghorwyr Trysorlys allanol ar gyllid cyfalaf y prosiectau.

4.8 Ffi Archwilio Allanol - £25,330

Bydd y ffi hon yn cynnwys archwiliad o ddatganiad cyfrifon blynyddol llawn y Bwrdd Uchelgais ynghyd ag Archwiliad Perfformiad, a bydd y rhain yn cael eu cynnal gan Archwilio Cymru, fel Archwilwyr Allanol Cyngor Gwynedd.

4.9 Bwrdd Cyflawni Busnes - £15,000

Bydd y gyllideb yma yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Prosiectau

4.10 Mae ffigyrau'r gyllideb yn seiliedig ar y wybodaeth diweddaraf sydd ar gael, a bydd angen iddynt gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r rhaglen gyfalaf ddatblygu.

4.11 Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau - £270,000

Mae pob un o'r prosiectau unigol angen Achos Busnes wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gyfrifol am ariannu'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais, a bydd hyn yn cynnwys gwaith arbenigol helaeth gan gwmnïau allanol.

4.12 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £85,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas ag achosion busnes y prosiectau.

4.13 Cefnogaeth Caffael Allanol - £60,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth caffael allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiectau.

4.14 Sicrwydd - £40,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer Adolygiadau Porth y Llywodraeth ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.

Cynlluniau grant - £788,850

4.15 Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys ffioedd ymgynghorwyr allanol yn ogystal â thîm cymorth mewnol i gyflawni'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol, ac mae'r gwariant hwn yn cael ei ariannu gan grant penodol gan Lywodraeth Cymru.

4.16 Llog - £251,040

Bydd y cyfraniadau llog a dderbynnir gan bartneriaid wedi'u rhoi i un ochr i ariannu'r gost gyfartalog o fenthycyca sy'n gysylltiedig ag ariannu'r gyllideb gyfalaf dros oes y cynllun twf.

Cyfraniadau Ariannu

4.17 Cyfraniadau Partneriaid - (£442,820)

Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 (GA2), mae Cyllideb 2023/24 yn cynnwys cyfraniad o £55,350 gan y chwe awdurdod lleol a £27,680 gan y pedwar ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £442,820. Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi cynyddu 6% i adlewyrchu chwyddiant alldro 2022/23 a'r chwyddiant cyflog arfaethedig ar gyfer 2023/24, yn unol â chymal 15.4.3 o'r GA2.

4.18 Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol - (£240,000)

Eto, yn unol â GA2, mae'r gyllideb yn cynnwys £40,000 gan y chwe awdurdod lleol i roi cyfanswm cyfraniad o £240,000.

4.19 Cyfraniadau Llog y Partneriaid - (£251,040)

Yn 2020, comisiynwyd Arlingclose (cwmni ymgynghorol trysorlys annibynnol) i fodelu cost benthyca a'r cyfraniadau partner blynyddol cyfatebol sydd eu hangen i dalu'r gost hon, a chafodd y cyfraniadau cyntaf eu cynnwys yng nghyllideb 2021/22. Yna cafodd

y cyfraniadau hyn eu lleihau yng nghyllideb 2022/23, o ganlyniad i gyhoeddiad Llywodraeth y DU i ddod â'r cyllid ymlaen o 15 i 10 mlynedd a llithriad yn y rhaglen gyfalaf, a weithiodd y ddau o'n plaid.

- 4.20 Oherwydd ffactorau y tu allan i'n rheolaeth, cyfraddau llog uwch (a ragwelwyd tua 4.5% o'i gymharu â 2.2% yn y cyfrifiad cyfredol), tynnu prosiectau a chostau adeiladu uwch (sydd yn ei dro yn effeithio ar faint o grant Ardrethi Annomestig (NDR) y byddwn yn ei dderbyn) yn cynyddu'r costau benthyca. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau llog uwch wedi gweithio o'n plaid yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol hon (2022/23), a bydd tua £700k mewn llog yn cael ei dderbyn ar y balans grant o £34m, ac ar y sail hwn rydym yn argymhell i'r cyfraniadau llog partner aros yr un fath ar gyfer 2023/24, ac i'r llog hwn gael ei ddefnyddio i bontio'r cynnydd fel mesur unwaith ac am byth nes bod gwybodaeth bellach ar gael o ran cymeradwyo prosiectau newydd. Ar ôl derbyn y wybodaeth hon, byddwn unwaith eto yn gweithio gydag Arlingclose a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i ail-gyfrifo y costau benthyca a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllidebau 2024/25 a'r dyfodol.
- 4.21 Bydd yr ail-gyfrifiad yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r egwyddorion a'r dull gwreiddiol, gyda'r gofynion benthyca yn cael eu cyfrifo drwy gronni'r holl wariant cyfalaf a grant Cynllun Twf Gogledd Cymru. Yna, defnyddir grant NDR gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r costau benthyca gyda'r costau net yn cael eu clustnodi i brif arianwyr y prosiectau a'r Bwrdd Uchelgais yn seiliedig ar werth y prosiect. Yr awdurdodau lleol (yn gymesuroi i'r boblogaeth) fydd yn cwrdd â'r gost fenthyca ar gyfer prosiectau rhanbarthol y Bwrdd Uchelgais.
- 4.22 Bydd y gwir gostau benthyca yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ond er mwyn hwyluso'r broses o osod y gyllideb yn y sefydliadau partner, bydd cyfraniadau blynyddol sefydlog yn cael eu cyfrifo.
- 4.23 Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) - (£255,930)
Mae'r cyllid ESF sy'n cyfrannu tuag at wariant y gweithwyr, yn lleihau'n sylweddol yn 2023/24, gyda'r cyllid yn dod i ben ym Mehefin 2023. Bydd yn arwain at her sylweddol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio o ran cyllid refeniw ac wrth ddarparu Bargaen Twf Gogledd

Cymru. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar y ffordd arfaethedig ymlaen ac opsiynau ariannu amgen posibl, a bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Mai.

4.24 Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru - (£874,000)

Er bod grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae 1.5%, sydd gyfwerth â £3.6m o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi'i glustnodi i ariannu gwariant refeniw y Bwrdd Uchelgais, gyda £874,000 wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2023/24. Gellir cyflawni'r hyblygrwydd hwn yn yr un ffordd ag y mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i reoli cyllid eu rhaglenni cyfalaf eu hunain. Gall hyn gynnwys pob un o'r chwe awdurdod lleol yn clustnodi'r cyllid sydd wedi'i ddynodi i'r Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf a sicrhau bod cyllid refeniw o werth cyfartal ar gael i'r Cynllun Twf i ariannu eu heitemau math refeniw.

4.25 Grant Ynni Llywodraeth Cymru (£799,870)

Mae hwn yn ariannu'r gwariant ar y pennawd Prosiectau yn ogystal â chyfrannu tuag at swydd Rheolwr y Rhaglen Ynni.

4.26 Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (£32,620)

Bydd yr incwm hwn yn cael ei dderbyn ar gyfer un o staff y Swyddfa Rheoli Portffolio sydd wedi ei secondio i gynllun Ffyniant Gyffredin y DG am dri diwrnod yr wythnos.

4.27 Cyfalafu Costau Cyflog (£50,000)

Dyma'r amcangyfrif o gostau cyfalafu staff ar y prosiect Cysylltu ychydig ganrannau olaf.

4.28 Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi - (£274,100)

Amcangyfrifir bod £552,027 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar 31 Mawrth 2023, ac ar ôl defnyddio £274,100 i ariannu cyllideb 2023/24, bydd £277,927 ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

Cyllideb Gyfalaf

- 4.29 Mae'r gyllideb gyfalaf yn dangos proffil gwariant dros y cyfnod 2021/22 hyd 2034/35 ar gyfer y prosiectau, ynghyd â'r brigdorri 1.5% i ariannu'r gyllideb refeniw dros yr un cyfnod. Mae'n seiliedig ar amserlen ddiweddaraf y prosiectau, a chaiff ei hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo.
- 4.30 Mae Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan, Fferm Sero Net Llysfasi a Cham 2 prosiect Egni wedi'u tynnu o'r Fargen Twf. Defnyddiwyd y cyllid hwn i greu Cronfa Bargen Twf ar gyfer prosiectau newydd gwerth £29.55m, £6.67 miliwn wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu arian ychwanegol i'r prosiectau mwyaf aeddfed (Hwb Economi Wledig Glynllifon, Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter a Safle hen Ysbyty Gogledd Cymru) a £0.23 miliwn wedi'i ddyrannu i'r prosiect Cysylltu'r ychydig ganrannau olaf.
- 4.31 Bydd £150.91m o'r cyllid grant ar gael i ariannu'r gwariant wrth iddo godi. Bydd y £89.09m sy'n weddill wedi'i ariannu drwy fenthyca i ddechrau, ac yna'i ad-dalu gyda'r grant sy'n weddill a dderbynnir yn 2028/29 hyd 2034/35. Mae hyn yn seiliedig ar broffil cyfredol y grant, gyda'r ddwy Lywodraeth yn trosglwyddo'r grant ar randaliadau cyfartal dros 10 (Llywodraeth y DU) a 15 (Llywodraeth Cymru) mlynedd .
- 4.32 Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir mesurau rheoli yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i arianwyr y prosiectau ymdrin ag ef mewn perthynas a'u prosiectau nhw.

5. Y Cyd-destun Llywodraethol

- 5.1 Mae angen i'r corff atebol baratoi'r Gyllideb Flynyddol ac mae angen i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais gytuno iddi.
- 5.2 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24 wedi'i pharatoi ar sail y rolau, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod hyd yma, gyda'r disgwyl i

lefel yr adnoddau a glustnodir gael ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei diweddarau wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

- 5.3 Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i staff y Swyddfa Rheoli Portffolio. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Awst 2023 a Rhagfyr 2023 a'i gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chatau priodol eu cymryd.

6. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd

- 6.1 Cyflwynwyd Atodiadau 1 a 2 a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 3 Mawrth 2023.

7. ASESAD ARDRAWIAD

- 7.1 Mae'r Bwrdd Uchelgais yn ddarostyngedig i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 7.2 Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i'r Bwrdd Uchelgais dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig. Gan fod gosod cyllideb yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod pob prosiect yn destun achos busnes manwl iawn yn unol â'r canllawiau 'Achos Busnes Gwell' a ddatblygwyd gan Thrysorlys EM a Llywodraeth Cymru, ni ystyrir bod unrhyw effeithiau penodol yn deillio o'r penderfyniadau a gyflwynir.
- 7.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn glŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni saith o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol

ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

8. Atodiadau

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24.

Atodiad 2 - Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2023/24.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:

Awdur yr adroddiad hwn.